

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A
LLWYTHO A PHARCIO) A GWAHARDD**

PARCIO A STOPIO DROS NOS (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 9) 2020

1. Ar 27 Awst 2020 gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, Orchymyn i osod y Cyfyngiadau Parcio a nodir yn yr atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 7 Medi 2020 neu ar y dyddiadau y caiff yr arwyddion a'r marciau ffordd eu tynnu neu eu gosod, p'un bynnag sydd hwyraf ac fe'i gelwir yn "Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) a Gwahardd Parcio a Stopio Dros Nos (Gorfodi Sifil) (Diwygiad) (Rhif 9) 2020"
3. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a chynlluniau yn dangos yr ardal yr effeithir arni ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk
4. Os dymunwch gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos wedi 7 Medi 2020 wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Caiff y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol ei ddiwygio fel a ganlyn:

Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Pharcio) (Gorfodi Sifil) 2013

ATODLEN 1

Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg

Cliff Parade, Penarth - Atodlen Map AN65

Ar ochr y de-orllewin o bwynt 6 metr tua'r gogledd-orllewin o brif wal ochr orllewinol y cyfleusterau cyhoeddus, tua'r de-ddwyrain am bellter o 56 metr, yn cydreddeg â'r un presennol.

ATODLEN 2

Gwaharddiad Parcio a Stopio Dros Nos Carafanau Modur a Camperfanau - 11pm tan 7am 7 Diwrnod yr Wythnos

Gwahardd Parcio a Stopio Dros Nos Cerbydau Nwyddau dros 3.5 Tunnell - 11pm tan 7am 7 Diwrnod yr Wythnos

Cliff Parade, Penarth - Atodlen Map AN65

Ar ochr y dwyrain o bwynt oddeutu 118 metr tua'r de o'r gyffordd â Raisdale Road tua'r de am 44.5 metr.

Ar ochr y dwyrain o bwynt tua 167 metr tua'r de o'r gyffordd â Raisdale Road tua'r de am 27 metr.

Ar ochr y gorllewin o bwynt tua 11 metr tua'r de o'r gyffordd â Raisdale Road tua'r de am 44.5 metr.

Ar ochr y gorllewin o bwynt tua 62 metr tua'r de o'r gyffordd â Raisdale Road tua'r de am 29 metr.

Dyddiad: 3 Medi 2020.

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai

Cyngor Bro Morgannwg,

Depo'r Alpau, Gwenfô, CF5 6AA